**Rhif: WG28382**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Polisi Cynllunio Cymru Pennod 6

Diwygio Polisi Cynllunio Cymru Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mawrth 2016
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 13 Mehefin 2016

OGL (h) Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar gynnig Llywodraeth Cymru i ddiwygio polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol.<br><br>Mae'r ddogfen bolisi ddrafft hon yn seiliedig ar adborth anffurfiol a gafwyd ar ddogfennau polisi cynllunio drafft a gyhoeddwyd er mwyn llywio'r gwaith o graffu ar Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Bwriedir ymgynghori ynghylch TAN ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn ystod haf 2016. |
| **Sut i ymateb** | Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 13 Mehefin 2016. Gallwch ymateb gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol.<br><br>**E-bost:**<br><br>Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 2 a'i hanfon i: planconsultations-j@cymru.gsi.gov.uk<br><br>**Post:**<br><br>Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:<br><br>Ymgynghoriad ar Bolisi Cynllunio Cymru Pennod 6<br>Y Gangen Polisi<br>Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)<br>http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy<br><br>Cadw, Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn ffordd gynaliadwy (2011)<br>http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples |
| **Manylion cyswllt** | Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:<br><br>Brian Davies<br>Brian.Davies18@cymru.gsi.gov.uk<br>02920 823524 |

| | |
|---|---|
| **Diogelu data** | Sut y byddwn yn defnyddio’r farn a’r wybodaeth a roddwch i ni<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy’n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy. Mae’n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.<br><br>Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn wedi’u cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi.  Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth. |

## Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

### Diben yr Ymgynghoriad

1. Mae’r amgylchedd hanesyddol wrth wraidd diwylliant Cymru a'i chymeriad ac mae'n cyfrannu at ein hymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'n hanfodol y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei werthfawrogi, ei warchod, ei gynnal a'i wneud yn hygyrch er lles cyffredinol y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

2. Disgwylir i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) gael Cydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth, polisïau, cyngor a chanllawiau sy'n gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli'n gynaliadwy.

3. Er mwyn llywio'r gwaith o graffu ar Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig ddrafft o bennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC), Nodyn Cyngor Technegol (TAN) drafft ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol a sawl dogfen ganllaw arfer gorau ddrafft i lywio'r gwaith o reoli grwpiau penodol o asedau hanesyddol. Mae'r adborth anffurfiol a gafwyd ar y dogfennau hyn yn ystod y broses o graffu ar y Bil wedi llywio'r ddogfen ymgynghori hon ynghylch pennod 6 o PCC.

4. Mae'r system gynllunio yn chwarae rôl bwysig o ran gwarchod a chadw'r amgylchedd hanesyddol tra'n ei helpu i ddiwallu anghenion presennol a pharhau i ymateb iddynt. Mae Pennod 6 o PCC yn nodi ein polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â'r rôl hon a diben yr ymgynghoriad hwn yw ystyried yn benodol y diwygiadau i'r Pennod hon.

### Beth yw'r prif faterion?

5. Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a warchodir yn dda a fydd yn cyfrannu at ansawdd bywyd a lle a gwella cyfleoedd bywyd pobl.

6. Er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn parhau i ddod â manteision gwerthfawr i bobl Cymru, rhaid inni nodi'r hyn sy'n arwyddocaol, ac mae angen inni reoli newid mewn modd sensitif a chynaliadwy.

7. Mae angen diwygio pennod 6 o PCC er mwyn llwyr adlewyrchu amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer amgylchedd hanesyddol hygyrch a warchodir yn dda a fydd yn cyfrannu at ansawdd bywyd a lle. Yn benodol, mae angen i'r bennod ystyried *Egwyddorion Cadwraeth* Cadw ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy[1], a gyhoeddwyd yn 2011, gan gynnwys datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru sy'n canolbwyntio'n gryf ar reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r bennod ddiwygiedig hefyd yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu at saith nod llesiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gynaliadwy fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

8. Mae gwarchod a gwella asedau hanesyddol yn ganolog i hyn, a gyflawnir drwy reoli newid mewn ffordd gadarnhaol yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn o natur ac arwyddocâd asedau hanesyddol, yn ogystal â chydnabyddiaeth o'r manteision a all

---
[1] http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples

ddeillio ohonynt, a'r rôl y maent yn ei chwarae mewn diwylliant ac economi ffyniannus.

9. Gall amcanion ar gyfer gwarchod, rheoli a chadw'r amgylchedd hanesyddol gael eu cyflawni drwy benderfyniadau ynghylch rheoli datblygu sy'n sensitif i arwyddocâd asedau hanesyddol ac yn gymesur ag effaith cynigion. Gall polisïau CDLl sy'n benodol i'r ardal leol hefyd nodi cyfleoedd cadarnhaol i gadw a gwella'r amgylchedd hanesyddol yn ogystal â gwarchod yr amgylchedd adeiledig a pharciau a gerddi hanesyddol wrth ystyried cynigion datblygu.

**Y sefyllfa bresennol**

10. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a'r fersiwn ddiwygiedig o bennod 6 o PCC, a fydd yn sicrhau y caiff amgylchedd hanesyddol unigryw a gwerthfawr Cymru ei reoli a'i wella mewn ffordd gynaliadwy, yn allweddol i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol.

11. Wrth i ddarpariaethau perthnasol yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ddod i rym ac wrth i'r cyngor a'r canllawiau ategol gael eu cyhoeddi, bydd angen diweddaru pennod 6 o PCC ymhellach. Bydd y newidiadau yn rhai mân ac ni fyddant yn effeithio ar egwyddorion polisi sylfaenol y ddogfen ond byddant yn cyflwyno cyfeiriadau ychwanegol at ganllawiau a gwybodaeth wedi'i diweddaru.

12. Bydd angen gwneud rhagor o fân newidiadau i PCC er mwyn cyfeirio at gyhoeddi'r TAN ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, a fydd yn disodli Cylchlythyrau'r Swyddfa Gymreig ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, yn ogystal â'r dogfennau canllaw sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Cadw er mwyn helpu i reoli grwpiau penodol o asedau hanesyddol - sef adeiladau rhestredig, Safleoedd Treftadaeth y Byd, asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, ardaloedd cadwraeth a pharciau a gerddi hanesyddol.

13. Ar ôl eu cychwyn, bydd angen cydnabod y darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 i roi'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ar sail statudol a chyhoeddi canllawiau i gyrff cyhoeddus penodol ar sut y dylid eu defnyddio wrth arfer eu swyddogaethau ym mharagraff 6.4.3. Yn yr un modd, bydd angen diwygio paragraff 6.5.16 er mwyn adlewyrchu'r darpariaethau newydd yn y Ddeddf ar gyfer ymgynghori, gwarchodaeth interim ac adolygu.

14. Yn ystod 2015 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddiwygiadau arfaethedig i is-ddeddfwriaeth ar gyfer rheoli datblygu. Esboniodd y ddogfen y bwriad i gyflwyno asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth i ategu ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth a chaniatâd heneb gofrestredig. Câi materion sy'n ymwneud â dylunio a mynediad eu hymgorffori mewn ystyriaeth ehangach o effaith y cynnig ar arwyddocâd treftadaeth. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn gefnogol iawn i'r dull hwn o weithredu. O ganlyniad, mae canllawiau ar lunio asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth a newidiadau arfaethedig i is-ddeddfwriaeth yn cael eu paratoi er mwyn ymgynghori arnynt a bydd angen adlewyrchu canlyniad y prosesau hyn ym mharagraff 6.5.12.

15. Yn ystod 2016 a 2017 cynhelir rhaglen fesul cam o ymgynghori a gweithredu'r darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a'r polisi, cyngor a chanllawiau cysylltiedig. Y bwriad yw ymgynghori ynghylch y TAN a'r prif ddogfennau

canllaw sy'n ymwneud â rheoli asedau hanesyddol yn y system gynllunio yn ystod haf 2016.

16. Mae pennod 6 o PCC yn nodi'r fframwaith lle y gall yr holl newidiadau hyn yn y dyfodol gael eu hystyried yn briodol. Fodd bynnag, mae angen i'r fersiwn bresennol, nad yw wedi newid ryw lawer ers iddi gael ei chyhoeddi yn 2002, gael ei haddasu gryn dipyn a'i diweddaru er mwyn iddi ddiwallu anghenion system fodern ac atebol ar gyfer ystyried sut mae newid yn effeithio ar y ffordd y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei reoli drwy'r system gynllunio.

**Yr hyn rydym yn cynnig ei newid?**

17. Mae Adran 6.2 yn nodi amcanion penodol yn ogystal â rhai cyffredinol. Maent yn cynnwys amcan newydd i warchod Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd ac un arall sy'n ymwneud â gwarchod a gwella parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a chadw tirweddau cofrestredig. Mae'r amcan ar gyfer olion archaeolegol yn cyfeirio at gadwraeth yn hytrach na gwarchodaeth, ac mae pwyslais newydd ar reoli newidiadau i adeiladau hanesyddol mewn ffordd gadarnhaol yn hytrach nag osgoi niwed.

18. Mae cyfeiriad penodol at newid yn yr hinsawdd a'r angen i'w ystyried wrth wneud penderfyniadau hefyd yn rhywbeth newydd.

19. Mae adran 6.3 yn diweddaru rôl Gweinidogion Cymru drwy wasanaeth amgylchedd hanesyddol (Cadw) Llywodraeth Cymru gan gyfeirio'n benodol at yr egwyddorion cadwraeth a'r angen i ymateb i'r amgylchedd hanesyddol cyfan, gan gynnwys cymeriad hanesyddol. Mae hefyd yn diweddaru rolau asiantaethau eraill, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol ac, yn benodol, y gofyniad newydd o dan ddeddfwriaeth gynllunio i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad.

20. Mae adran 6.4 yn canolbwyntio ar gynlluniau datblygu lleol. Mae hyn yn cynnwys pwyslais newydd ar yr angen i allu cael gafael ar dystiolaeth a'r defnydd a wneir ohoni, gan gynnwys rôl cofnodion amgylchedd hanesyddol (CAHau). Mae CAHau hefyd yn ategu'r *Egwyddorion Cadwraeth,* sy'n cydnabod bod cofnodi penderfyniadau a dysgu ohonynt yn hanfodol bwysig. Mae gwybodaeth hygyrch am yr amgylchedd hanesyddol hefyd yn cefnogi amcanion cyffredinol ar gyfer gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gorffennol. Maes o law bydd angen diweddaru'r adran hon ar ôl cychwyn darpariaethau'r Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) sy'n ymwneud â CAHau.

21. Mae'r adran hefyd yn pwysleisio mai'r ffordd orau o warchod Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd yw drwy bolisïau cynllunio cyson sydd wedi'u hategu gan ganllawiau cynllunio atodol.

22. Ar ben arall y sbectrwm, mae'r adran hon yn cydnabod nad yw pob ased hanesyddol yn cael ei warchod yn statudol fel heneb gofrestredig nac adeilad rhestredig ac mae'n cynnwys cyfeiriadau newydd at y rôl y gall awdurdodau cynllunio lleol ei chwarae o ran nodi ardaloedd archaeolegol sensitif lleol neu restrau o asedau o ddiddordeb lleol arbennig. Mae hyn yn nodi'r cyfraniad y gall treftadaeth o bwysigrwydd lleol ei wneud at natur unigryw yr ardal leol, ymdeimlad o le a gwybodaeth y cyhoedd. Mae'n cyfleu sut y dylid ystyried asedau neu ardaloedd o'r fath wrth ddatblygu CDLlau neu ganllawiau cynllunio atodol.

23. Yn olaf, mae'r adran yn adeiladu ar y gofyniad presennol i ystyried y cofnodion ar y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol a'r gofrestr o dirweddau hanesyddol wrth baratoi CDLlau. Mae'n nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisïau a fydd yn cyfrannu at y gwaith o warchod a gwella parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a chadw tirweddau hanesyddol cofrestredig.

24. Mae adran 6.5 yn ymdrin â rheoli datblygu a'r amgylchedd hanesyddol. O ran Safleoedd Treftadaeth y Byd mae'n diweddaru PCC er mwyn ystyried gorchmynion datblygu diweddar, gan gynnwys yr angen i ymgynghori â Cadw ynghylch ceisiadau sy'n debygol o effeithio ar eu Gwerth Cyffredinol Eithriadol. O ran olion archaeolegol, mae'n atgyfnerthu'r gofyniad i gynnal cofnodion ac archifau priodol. Maes o law bydd angen diweddaru PCC ymhellach drwy gyfeirio at safonau priodol ar gyfer archifau archaeolegol pan fyddant ar gael.

25. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno nod newydd i warchod a gwella adeiladau rhestredig, gan sicrhau y gellir parhau i wneud defnydd cynaliadwy ohonynt.  Fel mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd, mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i Ddatganiad Dylunio a Mynediad gael ei ddefnyddio i gyfiawnhau cynigion, y bydd angen iddynt fod yn gymesur ag arwyddocâd yr adeilad a graddau'r newid a gynigir. Fel y nodwyd uchod (paragraff 14), y bwriad yw ymgynghori ar gynigion i gyflwyno Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yn lle Datganiadau Dylunio a Mynediad.

26. Mae'r adran yn cyfeirio at yr angen i unrhyw ganllawiau cynllunio statudol, er mwyn cefnogi unrhyw asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol a nodwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol, fod yn ystyriaeth berthnasol. Mae hefyd yn cyfeirio at y gofyniad newydd i ymgynghori â Cadw ynghylch pob cais sy'n debygol o effeithio ar barc neu ardd hanesyddol gofrestredig a'r trefniadau newydd sy'n ymwneud â'r gofrestr o dirweddau hanesyddol.

27. Yn olaf, ceir adran newydd ar ddatblygiad galluogi sy'n dilyn y gydnabyddiaeth, a roddwyd yn *Egwyddorion Cadwraeth*, y gall cynigion o'r faith weithiau gynnig buddiannau sylweddol o ran treftadaeth, ac y gallant fod yn briodol os bydd y budd i'r cyhoedd sy'n deillio o warchod neu wella ased hanesyddol pwysig yn drech o lawer na'r niwed i fuddiannau perthnasol eraill.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

28. Nodir cwestiynau penodol sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad hwn isod. Os hoffech ymateb cwblhewch y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad yn Atodiad 2.

29. Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad ar wahân. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, nodwch hynny drwy roi tic yn y blwch perthnasol ar y ffurflen ymateb.

| | |
|---|---|
| C1 | A ydych yn cytuno â'n hamcanion ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol? Os nad ydych, pa amcanion yr hoffech eu gweld neu sut y byddech yn newid yr amcanion presennol?<br><br>Mae adran 6.2 o'r fersiwn ddrafft o Bennod 6 o PCC yn cyfeirio at ein hamcanion diwygiedig ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. |

| | |
|---|---|
| C2 | A ydych yn cytuno bod rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n rhan o'r broses gynllunio sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yn glir ac wedi'u diffinio'n dda? Os nad ydych, sut y byddech yn eu gwneud yn gliriach?<br><br>Mae adran 6.3 o'r fersiwn ddrafft o Bennod 6 o PCC yn rhoi gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n rhan o'r broses gynllunio sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. |
| C3 | A ydych yn cytuno bod y dull gweithredu sydd i'w fabwysiadu ar gyfer llunio cynlluniau datblygu yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol yn llawn? Os nad ydych, sut y gellid datrys hyn, yn eich barn chi?<br><br>Mae adran 6.4 o'r fersiwn ddrafft o Bennod 6 o PCC yn cyfeirio at ystyried yr amgylchedd hanesyddol ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol. |
| C4 | A ydych yn cytuno bod y dull gweithredu sydd i'w fabwysiadu yn ystod y broses Rheoli Datblygu wrth benderfynu ar geisiadau sy'n ymwneud â dynodiadau amgylchedd hanesyddol yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol yn llawn? Os nad ydych, sut y gellid gwella hyn?<br><br>Mae adran 6.5 o'r fersiwn ddrafft o Bennod 6 o PCC yn cyfeirio at y dull gweithredu sydd i'w fabwysiadu yn ystod y broses Rheoli Datblygu wrth benderfynu ar geisiadau sy'n ymwneud â dynodiadau amgylchedd hanesyddol. |
| C5 | A ydych yn cytuno ei bod yn briodol cynnwys testun ar Ddatblygiad Galluogi fel polisi cynllunio cenedlaethol? Os nad ydych, a yw'n fwy priodol nodi'r mater hwn o fewn canllawiau Cadw ar yr amgylchedd hanesyddol?<br><br>Mae paragraffau 6.5.27 a 6.5.28 o'r fersiwn ddrafft o Bennod 6 o PCC yn darparu testun ar y broses o ystyried datblygiad galluogi wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. |
| C6 | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi ymdrin â hwy, rhowch wybod inni. |